



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Ein polisi ymgyfreithiad a gorfodi 2019-22

Tachwedd 2019

Comisiwn Cydraddoldeb Hawliau Dynol

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Ein fframwaith gwneud penderfyniadau.....	4
Sut fyddwn ni'n penderfynu a ydym am ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol.....	6
Ein hymagwedd tuag at ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol	8
Prosiectau cefnogaeth gyfreithiol.....	10
Ceisiadau i ni ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol	11
Chwythu'r chwiban	13
Atodiad A: Pwerau gorfodi	14
Atodiad B: Pwerau ymglyfreitha	20
Cysylltiadau	22

Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn creu dyletswydd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010 ac i ddiogelu hawliau dynol, ac yn rhoi amrywiaeth o bwerau i ni wneud hyn.¹

Mae'r **pwerau gorfodi** a roddwyd i ni gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 yn cynnwys y pŵer i:

- ymchwilio i sefydliad neu unigolyn yr ydym yn amau i fod wedi torri cyfraith cydraddoldeb, a
- dod i gytundeb ffurfiol, sy'n rhwymo mewn cyfraith gyda sefydliad neu unigolyn.² Mae hyn yn ein galluogi i gytuno ar gynllun gweithredu er mwyn atal gwahaniaethu yn y dyfodol.

Trafodir ein pwerau gorfodi mewn mwy o fanylder yn Atodiad A.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 hefyd yn rhoi **pwerau ymglyfreitha** i ni. Mae'r pwerau hyn yn ein galluogi i:

- ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolion yn gwneud hawliadau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a
- cymryd, neu gymryd rhan mewn, achosion a fydd yn cryfhau deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r pwerau hyn i gronni màs critigol o achosion i ddangos sut mae mater penodol yn effeithio ar fywydau pobl – gweler 'prosiectau cymorth cyfreithiol' isod. Trafodir ein pwerau ymglyfreitha mewn mwy o fanylder yn Atodiad B.

¹ Yn yr Alban, fe gyflawnir ein gwaith hawliau dynol gyda chytundeb Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban.

² I wneud pethau'n syml, defnyddiwn y term 'sefydliad' trwy gydol y polisi hwn i gyfeirio at sefydliadau ac unigolion.

Yn y polisi hwn:

- Golyga '**Gweithredu gorfodol**' gamau cyfreithiol yn defnyddio unrhyw rai o'r pwerau a restrir yn Atodiad A.
- Golyga '**Ymglyfreitha strategol**' gamau cyfreithiol yn defnyddio unrhyw rai o'r pwerau a restrir yn Atodiad B.
- Golyga '**pwerau cyfreithiol**' unrhyw rai o'r pwerau gorfodi ac/neu ymglyfreitha a restrir yn yr atodiadau.

Ein fframwaith gwneud penderfyniadau

Yn ein rôl fel rheolydd, byddwn yn dilyn [Cod y Rheolyddion](#) parthed ein holl swyddogaethau perthnasol. Yn ein rôl fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol, byddwn yn dilyn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig parthed Statws y Sefydliadau Cenedlaethol ([‘Egwyddorion Paris’](#)).

Ein nod graidd a nodau blaenoriaeth

Yn gyffredinol, dydyn ni ddim ond yn defnyddio ein grymoedd cyfreithiol i daclo materion fydd yn hybu ein nod graidd, neu un o'n pum nod blaenoriaeth. Disgrifir y nodau hyn mewn manylder yn [ein Cynllun Strategol 2019–22](#), sy'n esbonio ar beth fyddwn ni'n gweithio yn ystod y tair blynedd nesaf. I grynhoi, byddwn yn defnyddio ein pwerau cyfreithiol i sicrhau:

- Y cynhelir y system o ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol trwy gryfhau'r dehongliad o gyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol (mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried os bydd ymglyfreitha yn cryfhau neu ddiogelu'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i'n mandad ar bob cyfle) a bod toriadau amlwg, systemig a difrifol o'r cyfreithiau hynny'n cael eu herio. Dyma ein **Nod Graidd**.
- Mae gan unigolion fynediad cyfartal i'r farchnad lafur ac maent yn cael eu trin yn deg yn y gwaith. Dyma ein **Nod Blaenoriaeth 1**.
- Mae trafndiaeth gyhoeddus yn cefnogi cynhwysiant economaidd a chymdeithasol pobl anabl a hŷn. Dyma ein **Nod Blaenoriaeth 2**.

- Gall unigolion gael iawndal pan wneir cam â nhw a gallant gael treial teg yn y system cyfiawnder troseddol. Dyma ein **Nod Blaenoriaeth 3**.
- Mae'r system addysg yn hybu perthynas dda ag eraill a pharchu cydraddoldeb a hawliau dynol. Dyma ein **Nod Blaenoriaeth 4**.
- Mae rheolau ac arferion yn llywodraethu mynediad i, ymadawriad o a thriniaeth mewn sefydliadau yn parchu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol. Dyma ein **Nod Blaenoriaeth 5**.

Sut fyddwn ni'n penderfynu a ydym am ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol

Os yw mater yn ymwneud â'n nod craidd neu un o'n nodau blaenoriaeth, byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a ydym am ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol. Byddwn yn dilyn yr un ymagwedd i ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol dan ein nod craidd ag y byddwn yn y pum nod blaenoriaeth.

Graddfa'r broblem

Byddwn yn ystyried **graddfa'r** broblem, yn cynnwys:

1. ei faint (y nifer o bobl a effeithir gan hyn)
2. ei ddifrifoldeb (pa mor ddwys yw'r effaith ar unigolyn neu grŵp, yn cynnwys pos yw'n effeithio ar bobl yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus)
3. ei ddyfalwch (ers faint o amser mae wedi parhau), ac
4. ei gyffredinrwydd (os yw'r un materion neu faterion tebyg yn effeithio ar unigolion ar draws nifer o sefydliadau neu sectorau).

Po fwyaf yw graddfa'r broblem, ar draws unrhyw rai neu'r holl fesurau hyn, y mwyaf tebygol yw hi y byddwn yn defnyddio ein pwerau cyfreithiol.

Ein heffaith

Byddwn yn ystyried yr **effaith** a gawn trwy nodi:

1. y newid cyffredinol yr hoffem weld

2. pa rai o'n pwerau allwn ni ddefnyddio i gyflawni hyn
3. pa rai o'ch pwerau fydd y modd mwyaf effeithiol a chymesur i'w gyflawni, ac
4. i ba raddau fydd defnyddio ein grymoedd cyfreithiol yn cyflawni hyn, gan ystyried gweithredu posibl yn y llys gan eraill.

Byddwn yn asesu effaith bosibl unrhyw fater yr ystyriwn yng Nghymru, yn Lloegr ac yn yr Alban. Os mai dim ond mewn un wlad fydd mater yn cael effaith, ni fydd hynny yn rheswm i beidio gweithredu. Byddwn yn ystyried **graddfa** ac **effaith** ym mhob gwlad ac efallai y byddwn yn penderfynu gweithredu mewn un wlad ond nid y gweddill.

Po fwyaf yw effaith ein gweithredoedd, y mwyaf tebygol ydyn ni i ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol.

Barnau ein rhanddeiliaid allanol

Byddwn yn ystyried barnau a thystiolaeth o randdeiliaid perthnasol, er enghraifft, cyrff cyfamod y Cenhedloedd Unedig, pwyllgorau seneddol a sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, wrth benderfynu os ydym am ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol.

Ein hymagwedd tuag at ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol

Wrth benderfynu a ydym am ddefnyddio unrhyw rai o'n grymoedd cyfreithiol, byddwn yn ystyried:

- i ba raddau y bydd canlyniad llwyddiannus yn warchod neu'n cryfhau dehongliad neu weithrediad cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol, yn erbyn y risg o sefydlu cynsail niweidiol
- os bydd graddfa'r broblem a'r effaith debygol a gawn yn cyfiawnhau faint o adnoddau fyddwn ni angen i gyflawni hyn
- p'un a oes ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni'r canlyniad dymunol
- os mai ni sydd yn y safle gorau i weithredu ac, os felly, p'un a ddylem wneud hynny mewn partneriaeth gydag eraill (fel rheolyddion eraill, arolygiaethau neu sefydliadau cymdeithas sifil) i gyflawni'r canlyniad a ddymunir ac,
- a fyddai gweithredu yn alinio gyda'n strategaethau rhagweithiol ym mhob nod, gan gynnwys ein gwaith arall, i gael yr effaith orau posib.

Byddwn yn gweithredu'n gymesur pob tro, gan gydbwysu graddfa a difrifoldeb y broblem yn erbyn maint ac adnoddau'r sefydliad dan sylw.

Yn ogystal, wrth ystyried defnyddio ein pwerau **ymglyfreitha strategol**, byddwn:

- yn cyflawni asesiad cadarn o rinweddau cyfreithiol yr achos a'r tebygolrwydd o gyflawni'r effaith rydym eisiau
- defnyddio ein grymoedd i ymyrryd dim ond os ydyn ni'n fodlon y byddwn yn ychwanegu gwerth i'r achos ac yn cynorthwyo'r llys yn ei benderfyniad, ac

- ystyried os mai ni yw'r sefydliad mwyaf addas i ariannu unrhyw achos ac ystyried a oes yna ffynonellau eraill o gyllid ar gael (er enghraifft, cymorth cyfreithiol).

Pan fyddwn yn defnyddio ein grymoedd cyfreithiol, byddwn yn:

- hyrwyddo canlyniad defnyddio ein grymoedd cyfreithiol i annog eraill i gydymffurfio gyda chyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol
- cyhoeddi manylion canlyniadau defnyddio ein grymoedd cyfreithiol pan fydd yn gyfreithlon a chymesur i wneud hynny
- peidio llofnodi cytundebau cyfrinachedd gyda sefydliadau nac unigolion, pan fydd achos yn dod i ben neu setliad wedi ei gytuno, ar wahân i mewn amgylchiadau eithriadol.

Prosiectau cefnogaeth gyfreithiol

Byddwn weithiau'n rhedeg prosiectau yn cynnig cefnogaeth gyfreithiol ar fater yn ymwneud â'n nod craidd neu un o'n nodau blaenoriaeth. Mae hyn yn ein galluogi i gynyddu mynediad unigolion at gyfiawnder ar y mater hwnnw ac i gael gwell dealltwriaeth ohono. Mae'r math yma o **ymglyfreitha strategol** yn ymwneud â magu màs critigol o achosion i ddangos sut mae mater penodol yn effeithio ar fywydau pobl ac yna defnyddio'r achosion hynny i benderfynu ar y ffordd orau i daclo'r mater.

[Gallwch ddarllen am brosiectau blaenorol cefnogaeth gyfreithiol ar ein gwefan.](#)

Ein hymagwedd i brosiectau cefnogaeth gyfreithiol

Efallai y byddwn yn cyhoeddi meini prawf penodol ar gyfer gwahanol brosiectau, ond byddwn yn dilyn yr ymagwedd gyffredinol ganlynol wrth benderfynu os ydym am gynorthwyo gydag achosion prosiectau. Byddwn yn:

- asesu rhinweddau'r achos ac fel arfer ddim yn cynorthwyo os yw'r tebygolrwydd o lwyddo yn llai na 50%
- fel arfer, ond nid yn unigryw, cynnig cefnogaeth i achosion tro cyntaf
- gwneud hyn i ganfod graddfa neu fodolaeth mater penodol
- casglu gwybodaeth a dealltwriaeth ar achosion a gynorthwyir i nodi rhwystrau i fynediad a natur a graddfa unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, a
- ystyried gweithredu gorfodol yn erbyn sefydliadau a ganfyddir i fod wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon.

Ceisiadau i ni ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol

Gall cynrychiolwyr cyfreithiol a sefydliadau gysylltu â ni'n uniongyrchol i ofyn i ni ddefnyddio ein grymoedd cyfreithiol.

Gellir e-bostio ceisiadau at legal.request@equalityhumanrights.com (ar gyfer Cymru a Lloegr) neu legalrequestscotland@equalityhumanrights.com (ar gyfer yr Alban).

Bydd ein tîm Gwybodaeth ac Effaith Gyfreithiol yn adolygu eich cais a byddwn yn cysylltu'n ôl cyn gynted â phosibl gyda phenderfyniad ac / neu gais am ragor o fanylion.

I gyflymu'r broses, bydd yn helpu os byddwch yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Eich enw, sefydliad a manylion cyswllt.
- Beth ydych chi'n gofyn i ni wneud, er enghraifft: ariannu ymglyfreitha strategol, ymyrryd mewn achos, cyflwyno achos yn ein henw ni, neu ymchwilio i weithred anghyfreithlon.
- Manylion y broblem, yn cynnwys crynodeb byr iawn o'r ffeithiau ac unrhyw ddyddiadau cau pwysig.
- O fewn pa rai o'n nodau blaenoriaeth neu nod craidd mae'r mater yn sefyll.
- Pam ddylem ni ddefnyddio ein grymoedd ar y mater hwn (gan ystyried y meini prawf yn y polisi ymglyfreitha a gorfodi hwn).

Ni allwn gynghori unigolion sy'n gofyn am ein help ar fater yn uniongyrchol. Yn hytrach, dylai'r bobl hyn gysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS).

Mae EASS yn derbyn galwadau gan unigolion. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth (ond nid cyngor na chynrychiolaeth gyfreithiol) ynghylch materion gwahaniaethu a hawliau dynol. Os yw EASS o'r farn y gallai'r mater fod o ddiddordeb strategol i ni, bydd yn ei gyfeirio atom ar gyfer ystyriaeth.

Y manylion cyswllt ar gyfer EASS yw:

Ffôn: 0808 800 0082

Ffôn testun: 0808 800 0084

Rhadbost: FREEPOST, EASS HELPLINE, FPN6521

Gallwch anfon e-bost yn defnyddio'r [ffurflen gysylltu ar wefan EASS](#).

Mae dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a gwasanaethau sgwrs ar y we hefyd ar gael trwy'r wefan.

Chwythu'r chwiban

Os ydych yn weithiwr yn gofidio bod eich cyflogwr yn mynd yn groes i gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol, gallwch sôn wrthym ni am eich gofidion.

Os bydd yr wybodaeth a ddarparoch wrthym yn boddhau meini prawf penodol, efallai y diogelir chi gan gyfraith chwythu'r chwiban. Golyga hyn na ddylech gael eich trin yn annheg neu golli'ch swydd oherwydd ichi sôn amdano. Rhaid i'r camwri rydych yn sôn amdano fod ym maes budd y cyhoedd. Golyga hyn fod rhaid ei fod yn effeithio ar eraill, er enghraifft y cyhoedd.

Gwnawn ddelio â'ch datgeliad yn unol â'n Polisi Chwythu'r Chwiban. Mae'r polisi yn egluro pan fyddwn yn penderfynu a wnawn weithredu neu beidio, gwnawn ystyried ein cynllun strategol, cynllun busnes a'r Polisi Ymglyfreithiad a Gorfodi hwn. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban hefyd yn egluro sut i gysylltu â ni i wneud datgeliad.

Atodiad A: Pwerau gorfodi

Fel y rheoleiddiwr cydraddoldeb cenedlaethol, yn gyfrifol am orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010, mae ein dyletswyddau (fel y sefydlwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2006) yn cynnwys lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.

Mae gennym amrywiaeth o bwerau gorfodi, a sefydlir yn Neddf Cydraddoldeb 2006, sy'n cynnwys:

- ymchwiliadau (adran 20)
- hysbysiadau gweithredoedd anghyfreithlon (adran 21)
- cynlluniau gweithredu (adran 22)
- cytundebau (adran 23)
- gwaharddebion (yn yr Alban, gwaharddiadau) (adran 24)
- asesiadau dyletswydd sector cyhoeddus (adran 31)
- hysbysiadau cydymffurfiad dyletswydd sector cyhoeddus (adran 32)

Ymchwiliadau Adran 20

Os ydyn ni'n amau bod sefydliad wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, gallwn gynnal ymchwiliad. Esbonia adran 20 ac atodlen 2 Deddf Cydraddoldeb 2006 bod yn rhaid i ni:

- ddarparu cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr ymchwiliad ac yn caniatáu i'r sefydliad neu ei gynrychiolydd cyfreithiol enwebedig gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch y cylch gorchwyl drafft
- ystyried unrhyw sylwadau ac yn ceisio cyhoeddi'r cylch gorchwyl terfynol
- gasglu a dadansoddi unrhyw dystiolaeth berthnasol, yn cynnwys sylwadau gan drydydd partïon

- os byddwn yn canfod fod y sefydliad wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, ei ddarparu ag adroddiad drafft a chaniatáu amser digonol iddo gyflwyno sylwadau ar hyn, ac
- ystyried unrhyw sylwadau cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Wrth geisio casglu tystiolaeth, efallai y byddwn yn rhoi rhybudd i sefydliad dan baragraff 9 atodlen 2 Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth a dogfennau yn ei feddiant neu ddarparu tystiolaeth lafar. Gall y sefydliad wneud cais i'r llys sirol neu lys y siryf dan baragraff 11 atodlen 2 Deddf Cydraddoldeb 2006 i neilltuo'r hysbysiad ar y sail nad yw'n angenrheidiol neu ei fod yn afresymol.

Gallwn wneud cais i'r llys am orchymyn yn gofyn iddo gymryd y camau gofynnol i gydymffurfio â'r hysbysiad. Bydd y sefydliad yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â hysbysiad neu orchymyn llys, yn ffugio unrhyw beth a ddarparwyd yn unol â hysbysiad neu orchymyn llys, neu'n rhoi tystiolaeth lafar ffug mewn ymateb i hysbysiad neu orchymyn llys, ac os nad oes rheswm rhesymol dros wneud hynny. Bydd sefydliad a geir yn euog o drosedd o'r fath yn wynebu dirwy 'lefel 5', sy'n golygu nad oes uchafswm i'r ddirwy bosibl.

Cytundebau Adran 23

OS yw sefydliad wedi gweithredu'n groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gallwn roi cyfle iddo, ar unrhyw adeg, i fynd i gytundeb dan adran 23 Deddf Cydraddoldeb 2006 ble mae'n ymroi i gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol mae wedi tramgwyddo arni. Gellir gwneud hyn yn hytrach nag ymchwiliad adran 20 neu asesiad adran 31, neu fel dewis amgen i barhau gyda'r naill neu'r llall os ydynt eisoes wedi cychwyn.

Os yw sefydliad yn ymroi i gytundeb adran 23, rydym yn monitro cydymffurfiad ac, os cydymffurfiwyd, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau gorfodi pellach.

Gorfodebion / gwaharddiadau adran 24

Os ydym yn credu fod sefydliad yn debygol o gyflawni gweithred anghyfreithlon, neu os yw sefydliad yn ymroi i gytundeb adran 23 ond nad yw'n cydymffurfio, gallwn wneud cais am orchymyn dan adran 24 i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr, neu i lys y siryf yn yr Alban. Byddai gorchymyn adran 24 naill ai'n cyfyngu'r sefydliad rhag cyflawni'r weithred anghyfreithlon neu, yn achos cytundeb adran 23, byddai'n gofyn i'r sefydliad gydymffurfio.

Mewn achoson o ddiffyg cydymffurfiad gyda chytundeb adran 23, gallem benderfynu peidio ceisio gorchymyn adran 24 ac amrywio'r cytundeb yn lle hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn galw am amgylchiadau rhagorol, a byddem yn disgwyl i'r sefydliad ragweld ei ddiffyg cydymffurfiad a cheisio amrywiad gyda ni o flaen llaw i unrhyw doriad cytundeb.

Hysbysiadau gweithred anghyfreithlon adran 21 a cynlluniau gweithredu adran 22

Os ydyn ni wedi cynnal ymchwiliad adran 20 ac yn penderfynu fod sefydliad wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad gweithred anghyfreithlon yn unol â'n pwerau dan adran 21.

Mae hysbysiad gweithred anghyfreithlon yn gofyn i'r sefydliad baratoi cynllun gweithredu drafft dan adran 22, gan sefydlu sut fydd yn unioni ei doriad parhaus ac yn atal toriadau yn y dyfodol.

Os na fyddwn yn derbyn cynllun gweithredu drafft, gallwn ymgeisio i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr neu lys y siryf yn yr Alban am orchymyn yn gofyn i'r sefydliad ddarparu cynllun gweithredu dan adran 22(6)(a) o fewn cyfnod amser penodol.

Gall sefydliad apelio i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr neu i lys y siryf yn yr Alban yn erbyn yr hysbysiad gweithred anghyfreithlon o fewn chwe wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad. Gall wneud hynny naill ai ar y sail ei fod yn gwadu ei fod wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon neu ei fod yn dadlau fod y gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn afresymol. Ar apêl, gall y llys gadarnhau, dirymu neu amrywio hysbysiad neu ofyniad yn yr hysbysiad a gwneud gorchymyn ar gyfer costau neu dreuliau.

Os na dderbynnir apêl yn erbyn yr hysbysiad a'n bod wedi derbyn cynllun drafft, gallwn naill ai'n ei gymeradwyo neu'n cyhoeddi hysbysiad pellach yn datgan fod y cynllun gweithredu yn annigonol. Bydd hysbysiad o'r fath yn gofyn am ddarparu drafft pellach a gwneud argymhellion ynghylch cynnwys y drafft diwygiedig. Os na fyddwn ni'n gofyn am ddrafft diwygiedig, neu os nad ydym wedi ymgeisio i'r llys am orchymyn i ofyn i'r sefydliad ddarparu cynllun drafft diwygiedig pellach, bydd y cynllun gweithredu drafft yn dod yn weithredol chwe wythnos wedi i ni ei dderbyn. Gellir amrywio cynlluniau gweithredu trwy gytundeb gyda ni.

Os nad yw sefydliad yn cydymffurfio gyda chynllun gweithredu, gallwn ymgeisio i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr neu lys y siryf yn yr Alban am orchymyn yn gofyn iddo gydymffurfio dan adran 22(6)(c), oni bai bod yr amgylchiadau yn golygu na fyddai'n briodol i wneud hynny.

Bydd sefydliad yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio gyda gorchymyn a wnaethpwyd yn ei erbyn dan adran 22(6) ac os nad oes esgus rhesymol dros wneud hyn. Bydd sefydliad a geir yn euog o drosedd o'r fath yn wynebu dirwy 'lefel 5', sy'n golygu nad oes uchafswm i'r ddirwy bosibl.

Asesiad adran 31 dyletswydd sector cyhoeddus a hysbysiad cydymffurfiaid 32 dyletswydd sector cyhoeddus

Pan fyddwn yn ystyried nad yw awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio gydag adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus) neu heb gyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 neu Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Yr Alban) 2012 fel y'i diwygiwyd, gallwn gyflawni asesiad o gydymffurfiaid yn unol ag adran 31.

Bydd asesiad adran 31 yn dilyn yr un fformat ag ymchwiliad adran 20, fel y sefydlwyd uchod. Gallai hyn gynnwys cyflwyno hysbysiad dan baragraff 9, atodlen 2 Deddf Cydraddoldeb 2006, yn gofyn i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth a dogfennau yn eu meddiant neu i roi tystiolaeth lafar. Gall sefydliad wneud cais i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr neu lys y sir yn yr Alban dan baragraff 11 atodlen 2 i neilltuo'r hysbysiad ar y sail nad yw'n angenrheidiol neu ei fod yn afresymol.

Gallwn wneud cais i'r llys am orchymyn yn gofyn i'r sefydliad gymryd y camau gofynnol i gydymffurfio â'r hysbysiad. Bydd sefydliad yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â hysbysiad neu orchymyn llys, yn ffugio unrhyw beth a ddarparwyd yn unol â hysbysiad neu orchymyn llys, neu'n rhoi tystiolaeth lafar ffug mewn ymateb i hysbysiad neu orchymyn llys, ac os nad oes rheswm rhesymol dros wneud hynny. Bydd sefydliad a geir yn euog o drosedd o'r fath yn wynebu dirwy 'lefel 5', sy'n golygu nad oes uchafswm i'r ddirwy

Os mai'r casgliad yn dilyn asesiad yw bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio, gallwn gyhoeddi hysbysiad dan adran 32. Bydd yr hysbysiad yn gofyn i'r sefydliad gydymffurfio gyda'r ddyletswydd i gyhoeddi ac i ddarparu, o fewn 28 niwrnod i'r hysbysiad, gwybodaeth ysgrifenedig i ni o'r camau a gymerwyd neu a gynigir i'r diben o gydymffurfio â'r ddyletswydd.

Os byddwn yn amau fod sefydliad wedi methu cydymffurfio gyda hysbysiad dan adran 32, gallwn ymgeisio i'r llys sirol yng Nghymru a Lloegr neu lys y siryf yn yr Alban am orchymyn yn gofyn iddo gydymffurfio dan adran 32(8).

Atodiad B: Pwerau ymglyfreitha

Fel y rheoleiddiwr cydraddoldeb cenedlaethol sy'n gyfrifol am orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010, mae ein dyletswyddau (fel y sefydlwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2006) yn cynnwys lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.

Mae gennym amrywiaeth o bwerau ymglyfreitha a sefydlir yn Neddf Cydraddoldeb 2006:

- Gallwn ddarparu cymorth cyfreithiol (adran 28).
- Gallwn gyflwyno achos cyfreithiol yn ein henw ni (adran 30).
- Gallwn ymyrryd ar mewn achosion cyfreithiol a gyflwynwyd gan eraill (adran 30).

Cymorth adran 28

Mae gennym y pŵer i ddarparu cymorth cyfreithiol ar gyfer honiadau o wahaniaethu a wnaed dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall hyn gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol a gall ymestyn i achosion gwahaniaethu gydag elfen hawliau dynol. Fodd bynnag, ni allwn helpu pobl mewn achosion sy'n codi materion hawliau dynol yn unig.

Achosion 'enw ein hun' adran 30

Os ydyn ni'n credu bod corff cyhoeddus wedi gwneud penderfyniad, gweithredu neu fethu gweithredu mewn modd sy'n groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gallwn gyhoeddi achos yn ein henw ein hunain am adolygiad barnwrol.

Gallwn ymgeisio am adolygiad barnwrol ar unrhyw sail, cyn belled â bod pwnc yr hawliad yn ymwneud ag un o'n swyddogaethau statudol. Mewn achosion hawliau dynol, nid ydym angen 'dioddefwr' sydd wedi ei effeithio gan y tramgwydd honedig – gofyniad sy'n berthnasol fel arall i'r rhai sydd eisiau cyflwyno achos adolygiad barnwrol dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

Ymyraethau Adran 30

Mae gennym y pŵer i ymyrryd mewn achosion llys mewn achosion hawliau dynol a chydaddoldeb a gychwynnwyd gan eraill.

Mae ymyrraeth yn ein galluogi, gyda chaniatâd y llys, i ddarparu dadansoddiad cyfreithiol o un neu fwy o'r materion, darparu mewnbwn ar agweddau cyfreithiol rhyngwladol neu ddarparu tystiolaeth atodol. Diben yr ymyrraeth yma yw helpu'r llys i benderfynu ar yr achos.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.](#)

EASS

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau agor 09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)

10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Tachwedd 2019